*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

C.Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor (01443 424062)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o'r **PWYLLGOR SAFONAU** yn cael ei gynnal yn **Virtual** ar **DYDD GWENER, 19EG MAWRTH, 2021** am **10.00 AM.**

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn Dydd Mercher, 17 Mawrth 2021 trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

## AGENDA

**Tudalennau**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o'r cyfarfod a gafodd ei gynnal ar

**5 – 12**

**ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO**

**3. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2019-2020**

Rhannu copi o Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2019-2020 er gwybodaeth i Aelodau.

**13 - 30**

**4. PANEL DYFARNU CYMRU - PENDERFYNIADAU TRIBIWNLYS DIWEDDAR**

Rhoi cyfle i'r Aelodau drafod penderfyniadau diweddar Panel Dyfarnu Cymru.

**31 - 92**

**5. Y NEWYDDION DIWEDDARAF MEWN PERTHYNAS Â DEFNYDD Y CYNGHORAU TREF A'R CYNGHORAU CYMUNED O'R BROSES BENDERFYNU LEOL**

Rhannu'r newyddion diweddaraf ag Aelodau mewn perthynas â defnydd y Cynghorau Tref a'r Cynghorau Cymuned o'r Broses Benderfynu Leol.

**93 - 96**

**6. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - YMGYNGHORIAD AR GANLLAWIAU'R COD YMDDYGIAD DIWYGIEDIG AR GYFER AELODAU PRIF GYNGHORAU A CHYNGHORAU CYMUNED A CHYNGHORAU TREF**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am ymgynghoriad a gafodd ei gychwyn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r canllawiau (drafft) ar gyfer Cod Ymddygiad Aelodau'r Prif Gynghorau a Chynghorau Cymuned a Chynghorau Tref a chroesawi sylwadau sy'n cael eu cyflwyno wrth ymateb i'r ymgynghoriad.

**97 - 238**

**7. ADOLYGU'R GWEITHDREFNAU SYDD AR WAITH ER MWYN YMDRIN Â CHWYNION Y MAE OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU WEDI'U CYFEIRIO AT AELODAU'R PWYLLGOR**

Adolygu'r Gweithdrefnau sydd ar waith er mwyn ymdrin â chwynion y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'u cyfeirio at Aelodau'r Pwyllgor a phenderfynu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben.

**239 - 272**

**8. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 A'R FFRAMWAITH MOESEGOL STATUDOL**

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am newidiadau i'r fframwaith moesegol statudol, sy'n cael eu cyflwyno yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a cheisio cytundeb o'r camau sydd i'w cyflawni wrth ymateb i'r newidiadau.

**273 - 278**

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2019-2020 A 2020-2021**

Trafod adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2019-2020 a 2020-2021.

**279 - 288**

10. **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**<u>Cylchreliad:-</u>**

**Aelodau Annibynnol** – M.Jehu, MBE (Cadeirydd), D Bowen a J.Thomas

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:**
Y Cynghorydd M Forey a Y Cynghorydd E Webster

**Y Cynghorydd Cymuned** R.Butler

**(Aelod wrth gefn o'r Cyngor Cymuned**: C. Willis)

Mr C.Jones, Swyddog Monitro
Mr A.Wilkins, Swyddog Monitro
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu